Y BANC

Deunydd Darllen

Canolradd (De)

Chwarae'r Gêm - Act 10

(Nodyn i'r Tiwtor: Os dych chi'n dilyn Cwrs Canolradd CBAC (y De) bydd y ddrama hon yn addas unrhyw bryd ar ôl Uned 12.)

Mae'n saith o'r gloch ac mae newyddion S4C newydd ddechrau.

Cyflwynydd: Noswaith dda. Heno…Yr Arlywydd Bush yn ymweld â Chymru…..Tân mawr ar fynydd Parys, Ynys Môn ….a Phlant Cymru i gael afal bob bore yn yr Ysgol…

Ond yn gyntaf heno, arestiwyd pedwar o chwaraewyr pêl-droed yng Nghaerddinas heno ac arestiwyd un arall ym maes awyr Cymru, Caerdydd. Gyda'r stori, dyma Huw Morgan:

Huw: Diolch, Nia. Wel, aeth yr heddlu i Gynhadledd i'r Wasg yng Nghlwb Pêl-droed Caerddinas am bedwar o'r gloch y prynhawn 'ma ac aethpwyd â phedwar o chwaraewyr i swyddfa'r heddlu. Y pedwar oedd Roberts, Derbyshire, Griffiths a Howells. Cyhuddwyd y pedwar o dwyll. Credir bod y pedwar wedi derbyn arian mawr ar *ôl* cytuno i GOLLI gêmau.

Cyflwynydd: Ac mae Caerddinas wedi colli llawer o gêmau yn ddiweddar.

Huw: Ydyn. Llawer iawn.

Cyflwynydd: Dim ond y pedwar yma oedd wedi derbyn arian?

Huw: Dyn ni ddim yn siŵr eto ond arestiwyd un arall – y capten Michael Jones - ym maes awyr Cymru, Caerdydd heno. Roedd e ar ei ffordd i Napoli yn yr Eidal, mae'n debyg. Credir mai Jones oedd yn trefnu'r twyll.

Cyflwynydd: Felly, beth sy'n digwydd nawr, Huw. Ydy pawb yn cael myndadre heno?

Huw: Na. Mae'r pump yn y ddalfa yng Nghaerddinas heno. Y cwestiwn nawr yw beth fydd yn digwydd i glwb pêl-droed Caerddinas?

Cyflwynydd: Diolch yn fawr, Huw…ac nawr at ein stori nesaf. Mae'r Arlywydd Bush wedi bod yn Aberystwyth heddiw…..

Geirfa

Arlywydd – president
Twyll - fraud
Y ddalfa – remand
Yn ddiweddar – lately